Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GSR GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
63/2023

DYDDIAD CYHOEDDI:
08/06/2023

# Astudiaeth Ddichonoldeb Dyraniadau Tai Cymdeithasol

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83504-001-0

Teitl: Astudiaeth Ddichonoldeb Dyraniadau Tai Cymdeithasol
Is-deitl:

Awdur(on) / Becca McEwan yn seiliedig ar ymchwil a dadansoddi gan Alma Economics

Adroddiad Ymchwil Llawn: <cyfenw>, ; Awduron (dyddiad). Teitl. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, Rhif Adroddiad YGLI 63/2023.>
Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/astudiaeth-ddichonoldeb-ynghylch-ddyrannu-tai-cymdeithasol

Safbwyntiau'r ymchwilydd ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Enw: Becca McEwan

Is-adran:

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn:

E-bost: housingresearchteam@gov.wales

## Tabl y cynnwys

Geirfa ..... 2
1. Cyflwyniad ..... 3
2. Methodoleg ..... 4
3. Canfyddiadau ..... 6
4. Casgliadau ..... 17
5. Argymhellion ..... 19
Atodiad A ..... 21

**Geirfa**

Testun yr eirfa

| Acronym/Gair allweddol | Diffiniad |
|---|---|
| LCC | Landlord Cymdeithasol Cofrestredig |
| LHMA | Asesiadau o’r Farchnad Dai Leol |
| CORE | System Cofnodi Gosodiadau a Gwerthiannau Tai Cymdeithasol yn Barhaus yn Lloegr |
| Digartref ac ar y Stryd | “Mae ‘digartref ac ar y stryd’, mewn perthynas ag unigolyn, yn golygu nad oes llety ar gael i’r unigolyn fyw ynddo yn y Deyrnas Unedig neu yn rhywle arall, y mae’r unigolyn – a) yn meddu ar hawl i fyw ynddo yn rhinwedd buddiant ynddo neu yn rhinwedd gorchymyn llys; b) yn meddu ar drwydded ddatganedig neu ddealledig i’w feddiannu; neu, c) yn ei feddu fel preswylfa yn rhinwedd deddfiad neu reol gyfreithiol sy’n rhoi’r hawl i’r unigolyn barhau i fyw neu’n cyfyngu ar hawl unigolyn arall i adennill meddiant;" - Adendwm i’r Cod Canllawiau |

## 1. Cyflwyniad

1.1 Caiff dull Llywodraeth Cymru o ymdrin â thai ei oleuo i raddau helaeth gan y Strategaeth Tai Genedlaethol, Gwella Bywydau a Chymunedau (2010)[1] a'r Papur Gwyn Tai (2012)[2]. Mae llawer o'r ymrwymiadau, yn arbennig y rhai sy'n ymwneud â digartrefedd a dyraniadau, megis darparu mwy o dai o'r math cywir a chynnig mwy o ddewis, a gwella gwasanaethau a chymorth sy'n gysylltiedig â thai, yn enwedig i bobl agored i niwed, wedi cael eu rhoi ar waith gan Ddeddf Tai (Cymru) 2014[3]. Mae awdurdodau lleol yng Nghymru'n dilyn Cod Canllawiau statudol Llywodraeth Cymru ar Ddyrannu Llety a Digartrefedd i roi arweiniad iddynt o ran cyflawni eu swyddogaethau dan y Ddeddf[4]. Gyda'r galw am dai cymdeithasol yn cynyddu, mae'n bwysig bod Awdurdodau Lleol, Cymdeithasau Tai a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (LCC) i gyd yn cydweithio i gyflawni'r dyletswyddau a osodir ar Awdurdodau Lleol gan y Ddeddf, i fynd i'r afael â'r angen am dai.

1.2 Rhoddodd Llywodraeth Cymru gomisiwn i Alma Economics i gynnal astudiaeth ddichonoldeb i ddeall casgliadau data a threfniadau monitro presennol, yn ogystal â phrosesau a phenderfyniadau ynglŷn â dyrannu tai cymdeithasol ar draws Awdurdodau Lleol yng Nghymru. Cofnod o'r gweithgarwch hwnnw yw'r adroddiad hwn.

1.3 At y diben hwn, cynhaliwyd cyfweliadau manwl gyda phedwar Awdurdod Lleol yng Nghymru. Cafodd yr Awdurdodau Lleol a gyfranogodd yn yr ymchwil hon eu dethol gan Lywodraeth Cymru gan bod ganddynt ddulliau gwahanol o ddyrannu tai cymdeithasol ac y byddent felly'n helpu i ddeall dichonoldeb cynnal prosiect ymchwil mwy ar draws yr holl landlordiaid cymdeithasol yng Nghymru. Mae gan ddau o'r Awdurdodau Lleol a ddetholwyd eu stoc tai cymdeithasol eu hunain, tra nad oes gan y ddau arall eu stoc eu hunain. Maent hefyd wedi'u gwasgaru'n ddaearyddol, er mwyn cynrychioli Cymru gymaint â phosibl.

---

[1] Gwella Bywydau a Chymunedau: Tai yng Nghymru - Anghydraddoldebau Iechyd (health-inequalities.eu)

[2] Papur Gwyn ar gyfer bywyd gwell a chymunedau gwell | LLYW. CYMRU (llyw.cymru)

[3] Deddf Tai (Cymru) Act 2014 (legislation.gov.uk)

[4] Dyrannu llety a digartrefedd: canllawiau ar gyfer awdurdodau lleol | LLYW.CYMRU

1.4 Fe ymdriniodd y cyfweliadau â gwahanol bynciau mewn perthynas â dyraniadau tai cymdeithasol, gan gynnwys argaeledd, cwmpas, ansawdd a chysondeb data, diffiniadau o'r angen am dai, prosesau blaenoriaethu a phrosesau penderfynu ar draws Awdurdodau Lleol.

1.5 Bydd canfyddiadau o'r astudiaeth ddichonoldeb hon a oedd wedi'i thargedu'n bwydo i mewn i ddylunio ymchwil ehangach a fydd wedi'i bwriadu i gasglu a dadansoddi data ar ddyraniadau tai cymdeithasol, yn ogystal ag archwilio prosesau penderfynu mewn Awdurdodau Lleol a landlordiaid cymdeithasol mewn perthynas â dyraniadau.

## 2. Methodoleg

2.1 Nod yr ymchwil hon oedd deall data a phrosesau presennol ar gyfer dyraniadau tai cymdeithasol mewn sampl o'r Awdurdodau Lleol. Mae hyn yn cynnwys arfer cyfredol landlordiaid cymdeithasol (pa feini prawf a phrosesau y maent yn eu defnyddio), ac adnabod arfer gorau posibl mewn perthynas â dyraniadau tai cymdeithasol. Bydd y data yma'n cael ei ddefnyddio i ganfod pa mor hyfyw fyddai prosiect ymchwil dros Gymru benbaladr. Y dulliau allweddol a ddefnyddiwyd yn yr ymchwil hon oedd gweithgaredd ymchwil ddesg wedi'i dargedu (adolygu data presennol ar ddyraniadau tai cymdeithasol), a chyfweliadau gyda rhanddeiliaid allweddol o'r Awdurdodau Lleol a ddetholwyd. Gan mai astudiaeth ddichonoldeb oedd natur yr ymchwil hon, defnyddiodd sampl fach iawn o bedwar Awdurdod Lleol. Mae hyn yn golygu na ellir ystyried bod y canfyddiadau'n rhoi darlun cywir o'r hyn sy'n digwydd yn yr holl Awdurdodau Lleol nac o weithgarwch a gyflawnir gan landlordiaid cymdeithasol yng Nghymru. Yn lle hynny mae'n darparu mewnwelediad i hyfywedd prosiect ymchwil dros Gymru gyfan. Byddai unrhyw ymchwil bellach yn amcanu at gynnwys safbwyntiau LCC.

Ymchwil ddesg

2.2 Roedd cam cyntaf y prosiect yn cynnwys ymchwil ddesg a ddefnyddiwyd i helpu i ddeall tirwedd gyfredol dyraniadau Tai Cymdeithasol, i ategu gwaith maes gyda'r Awdurdodau Lleol a ddetholwyd. Caiff y dogfennau a adolygwyd eu rhestru isod:

- Cod Canllawiau ar gyfer Awdurdodau Lleol ar Ddyrannu Llety a Digartrefedd (Llywodraeth Cymru 2016)[5]
- Deall Achosion o Gau Allan o Dai Cymdeithasol yng Nghymru (Llywodraeth Cymru 2019)[6]
- Adroddiad ar Ddyrannu Tai Cymdeithasol (Shelter Cymru 2020)[7]
- Ailfeddwl am Ddyraniadau (Y Sefydliad Tai Siartredig 2019)[8]
- Ystadegau cenedlaethol ar osodiadau cymdeithasol[9]

Cyfweliadau

2.3 Defnyddiwyd cyfweliadau i fwrw golwg fanylach ar argaeledd, cwmpas, ansawdd a chysondeb data ar draws sampl o Awdurdodau Lleol, yn ogystal â'r diffiniadau o angen am dai a phrosesau blaenoriaethu a phenderfynu. Mae'r pedwar Awdurdod Lleol a ddetholwyd yn cynrychioli dulliau gwahanol o ddyrannu tai cymdeithasol, yn ogystal â phatrymau gwahanol o ran anghenion tai.

2.4 Cynhaliwyd cyfweliadau manwl gyda staff o'r Awdurdodau Lleol a samplwyd, sy'n gyfrifol am gasglu ac adrodd ar ddata ynghylch tai cymdeithasol, yn ystod mis Medi a mis Hydref 2022 trwy fideogynadledda neu dros y ffôn. Mae'r canllaw cyfweld i'w gael yn Atodiad A. Nod y cyfweliadau hyn oedd deall y gwahanol fathau o ddata a ddelir, yn ogystal ag asesu ei ansawdd a chysondeb, a'r prosesau monitro a phenderfynu presennol ar gyfer dyrannu tai cymdeithasol. Roeddent hefyd wedi'u

5 Dyrannu llety a digartrefedd: canllawiau i awdurdodau lleol | LLYW. CYMRU (llyw.cymru)
6 Deall troi allan cymdeithasol yng Nghymru | LLYW. CYMRU (llyw.cymru)
7 Allocation-of-Social-Housing-Report.pdf (sheltercymru.org.uk)
8 Ailfeddwl am ddyraniadau (cih.org)
9 Gosodiadau tai cymdeithasol (llyw.cymru)

bwriadu i ddeall arferion a phrosesau presennol mewn perthynas â phenderfynu ynghylch dyraniadau tai cymdeithasol.

Cafeatau

2.5 Roedd yr ymchwil hon wedi'i bwriadu i asesu dichonoldeb cynnal prosiect ymchwil mwy ledled Cymru. Felly, nid yw'n ystyried barn, profiadau na data pawb sy'n rhan o ddyrannu tai cymdeithasol yng Nghymru. Dylid ystyried bod y canlyniadau'n arwydd o faterion neu bynciau y dylid eu harchwilio mewn mwy o fanylder trwy ymchwil bellach.

## 3. Canfyddiadau

Mae'r bennod hon yn canolbwyntio ar ganfyddiadau

Diffiniadau o'r angen am dai cymdeithasol

3.1 Mae'r Awdurdodau Lleol a samplwyd yn disgrifio categorïau sy'n debyg fwy neu lai i adnabod ac asesu'r angen am dai cymdeithasol gan gynnwys:

- mewn perygl o fod yn ddigartref, eisoes yn ddigartref a/neu fod dyletswydd digartrefedd iddynt dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014
- tai annigonol (e.e. gorboblogi neu anghyfannedd/afiach)
- iechyd a diogelwch (anableddau, yn ffoi rhag cam-drin domestig, iechyd meddwl)
- rhesymau economaidd (anfforddiadwyedd, ôl-ddyledion rhent, cyflogaeth/hyfforddiant ac enillion)

3.2 Dywedodd Awdurdodau Lleol a samplwyd eu bod yn blaenoriaethu ymgeiswyr yr ystyrir bod arnynt angen tai fel a ddiffinnir yng nghyd-destun y Cod Canllawiau – yn benodol, ymgeiswyr y mae dyletswyddau digartrefedd iddynt, cefnogi goroeswyr

cam-drin domestig, pobl ag anabledd a/neu afiechyd meddwl, rhai sy'n gadael gofal, pobl sy'n cysgu allan a'r henoed. Mae hyn yn gyson â'r rhai y cydnabyddir mewn deddfwriaeth eu bod yn gategori 'angen blaenoriaethol' ar gyfer llety pan ydynt yn dod i sylw fel pobl ddigartref. Yn 2020, ar ddechrau pandemig Covid-19, fe gyflwynodd Llywodraeth Cymru ddull 'gadael neb allan', i sicrhau bod y rhai a oedd yn ddigartref ac ar y stryd, neu'n wynebu bod yn ddigartref ac ar y stryd, yn cael eu cyfrif yn bobl agored i niwed, yn unol ag adran 70 Deddf Tai (Cymru) 2014. Ym mis Hydref 2022, cryfhawyd deddfwriaeth i ffurfioli'r dull hwn, a daeth Rheoliadau Digartrefedd (Angen Blaenoriaethol a Bwriadoldeb) (Cymru) 2022[10] i rym, gan gydnabod 'pobl sy'n ddigartref ac ar y stryd a'r rhai sydd mewn perygl o ddod yn ddigartref ac ar y stryd' fel unfed categori 'angen blaenoriaethol' ar ddeg.

Tueddiadau o ran yr angen am dai cymdeithasol

3.3 Mae ymchwil yr astudiaeth ddichonoldeb yn awgrymu, yn ddiweddar, y bu cynnydd cyflym yn y galw am dai cymdeithasol. Ceir data diweddar ar ddarparu llety digartrefedd a chysgu allan hefyd,[11] yn ogystal â gwybodaeth am nifer yr aelwydydd a dderbyniwyd fel rhai digartref, rhesymau dros ddigartrefedd a nifer yr aelwydydd mewn llety dros dro[12], sy'n atgyfnerthu'r canfyddiadau hyn. Fe enwodd yr Awdurdodau Lleol a oedd yn rhan o'r ymchwil hon resymau tebyg dros gynnydd yn yr angen am dai cymdeithasol, gan gynnwys chwyddiant a rhenti anfforddiadwy yn y sector rhentu preifat. Fe wnaeth yr Awdurdodau Lleol a samplwyd sôn yn benodol am fwy o geisiadau am dai cymdeithasol ar ôl COVID-19, gydag un Awdurdod Lleol yn dweud eu bod yn "*arfer cael 40-50 o alwadau'r dydd, mae bellach yn nes at 150-180".* Crybwyllwyd hefyd fel a ganlyn -"*Mae'r argyfwng tai ledled Cymru a Phrydain Fawr i gyd yn achosi straen ar y ddwy ochr, ac rydym ni dan bwysau sydd lawn cymaint os nad yn fwy nag yn ystod COVID-19. Wrth symud i mewn i gyfnod o fwy o gyni cyllidol, mae'n bwysig cydnabod bod chwyddiant a chyni'n cael effaith*

[10] Rheoliadau Digartrefedd (Angen Blaenoriaethol a Bwriadoldeb) (Cymru) 2022 (legislation.gov.uk)
[11] Darpariaeth llety digartrefedd a chysgu allan: Tachwedd 2022 | LLYW.CYMRU
[12] Digartrefedd (llyw.cymru)

*wirioneddol ar bobl. Mae hefyd yn bwysig meddwl beth allwn ni ei wneud i helpu er bod ein cyllidebau ni'n dynn iawn hefyd." (Awdurdod Lleol a Samplwyd, 2023)*

3.4 Dywedodd yr Awdurdodau Lleol a samplwyd yn gyffredinol, ar ôl COVID-19, fod y cynnydd yn y galw am dai wedi effeithio'n gymesur ar y rhai ag anghenion cymhleth; pobl ifanc; a dynion sengl.

Ffynonellau data a defnyddio data

3.5 Un o elfennau allweddol yr astudiaeth ddichonoldeb hon oedd deall y data a ddelir ar hyn o bryd mewn Awdurdodau Lleol a'i argaeledd, er mwyn deall a dylunio prosiect ymchwil mwy dros Gymru benbaladr.

3.6 Mae ceisiadau am dai cymdeithasol yn ffynhonnell ddata bwysig i'r Awdurdodau Lleol a samplwyd. Dyma ble y mae Awdurdodau Lleol yn cael gwybodaeth berthnasol i asesu'r angen am dai. Dyma hefyd ble y mae gwybodaeth ddemograffig am ymgeiswyr yn cael ei chasglu, er bod cyfweliadau'n awgrymu bod anghysondeb o ran dangosyddion ar draws Awdurdodau Lleol a samplwyd. Mae'r rhan fwyaf o'r Awdurdodau Lleol a samplwyd i'w gweld fel pe baent yn casglu data ar ddangosyddion demograffig sy'n berthnasol i ddiffiniadau gwahanol o angen – er enghraifft, gan gynnwys anabledd, maint teuluoedd neu hanesion ariannol lle mae tai yn y cwestiwn. Ymddengys hefyd fod rhai anghysonderau o ran casglu data ar nodweddion gwarchodedig eraill, gan gynnwys oedran, ailbennu rhywedd, hil a chyfeiriadedd rhywiol ymhlith yr Awdurdodau Lleol a samplwyd.

3.7 Mae heriau o ran ansawdd data a brofir gan yr Awdurdodau Lleol a samplwyd yn cynnwys ymgeiswyr yn peidio â llenwi'r holl ddata y gofynnwyd amdano fel rhan o'r broses ymgeisio, gan arwain felly at fylchau sylweddol yn y data sydd ar gael.

3.8 Defnyddir data o geisiadau am dai i oleuo penderfyniadau ynglŷn â gosod ymgeiswyr ar gofrestrau tai. Mae'r Awdurdodau Lleol a samplwyd yn defnyddio'r data yma i ddeall yr angen am dai cymdeithasol hefyd – er enghraifft, nifer yr ymgeiswyr ag anabledd meddyliol neu gorfforol. Efallai na fydd gan Awdurdodau Lleol sydd heb gofrestr tai gyffredin fynediad at wybodaeth berthnasol am yr angen

am dai cymdeithasol a nodweddion ymgeiswyr yn eu hardal, gan bod ymgeiswyr yn mynd yn uniongyrchol at landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn lle hynny.

3.9 Dynododd cyfweleion fod cofrestrau tai'n gallu cynnwys gwybodaeth bwysig am yr angen am dai, yn seiliedig ar y band y mae unigolyn wedi'i neilltuo iddo. Mae hyn yn rhoi'r gallu i wahaniaethu rhwng unigolion sy'n ddigartref ac ar y stryd (yn cysgu allan) neu'n profi neu'n wynebu risg o ddigartrefedd o fewn y gofrestr tai. Wrth i ymgeiswyr gael cynnig tai a chael eu tynnu oddi ar y gofrestr tai o ganlyniad, gall Awdurdodau Lleol arsylwi hefyd ar ddata ynghylch penderfyniadau yn seiliedig ar angen a nodweddion demograffig.

3.10 Mae data ar hyd yr arhosiad mewn cofrestrau tai yn ychwanegol at unrhyw wrthodiadau afresymol yn cael ei gasglu gan yr Awdurdodau Lleol a samplwyd hefyd.

3.11 Adroddir wrth Lywodraeth Cymru ar ddata ynghylch penderfyniadau ynglŷn â dyrannu tai cymdeithasol i ymgeiswyr (gosodiadau) yn ôl math o osodiad ac mae hynny'n rhan o ystadegau cenedlaethol a gyhoeddir ar ddyrannu tai cymdeithasol[13], felly dylai fod lefel o gysondeb o ran y modd yr adroddir ar draws Awdurdodau Lleol. Mae'r data yma'n aml yn cael ei ddefnyddio gan Awdurdodau Lleol a samplwyd i ddeall perfformiad o ran mynd i'r afael â'r angen am dai cymdeithasol – er enghraifft, i fonitro cynnydd o ran darparu tai addas i bobl sy'n ddigartref. Yn arbennig, caiff y dangosydd sy'n cofnodi canran yr ymgeiswyr digartref sy'n symud i mewn i dai cymdeithasol ei nodi fel dangosydd perfformiad allweddol ar draws yr Awdurdodau Lleol a samplwyd.

3.12 Dywedodd Awdurdodau Lleol eu bod yn coladu data ar nifer yr unedau tai cymdeithasol sydd ar gael o fewn yr Awdurdod Lleol. Mae'r ffynhonnell hon yn cynnwys dangosyddion megis nifer yr ystafelloedd gwely a manylion y gymdogaeth. Er yr adroddir wrth Lywodraeth Cymru ar nifer yr unedau sydd ar gael, mae data ar eu nodweddion yn cael ei ddal gan y gwahanol ddarparwyr tai cymdeithasol (e.e. ALlau, LCC) gan ddibynnu pwy sy'n berchen ar y stoc. Defnyddir gwybodaeth am unedau penodol i hysbysu ymgeiswyr ynghylch y tai sydd ar gael. Fe'i defnyddir

[13] Gosodiadau tai cymdeithasol (llyw.cymru)

hefyd at ddibenion mewnol o fewn yr Awdurdodau Lleol a samplwyd – yn bennaf i sicrhau bod pob cynnig o ddyraniad yn diwallu anghenion ymgeisydd. Mae gan Awdurdodau Lleol a samplwyd sydd â'u stoc dai eu hunain fynediad uniongyrchol at wybodaeth am eu hunedau eu hunain, tra bo eraill yn dibynnu ar ddata gan LCC.

Argaeledd data arall i ategu Dyraniadau

3.13 Mae Asesiadau o'r Farchnad Dai Leol yn cynnwys amcangyfrifon o'r angen am dai yn awr ac yn y dyfodol. Maent hefyd yn cynnwys trosolwg o'r farchnad dai leol gan gynnwys gwybodaeth am y stoc dai leol, yn ogystal ag am denantiaid. Mae ganddynt rôl allweddol o ran llunio Cynlluniau Datblygu a Strategaethau Tai Lleol Awdurdodau Lleol. Soniodd Awdurdodau Lleol a samplwyd eu bod yn adolygu eu hasesiadau'n flynyddol, er y gallent gyhoeddi rhai newydd yn llai rheolaidd – er enghraifft bob pum mlynedd.

3.14 Yn bwysig, soniodd Awdurdodau Lleol a samplwyd hefyd y gallai Timau Tai ddefnyddio data ar ddigartrefedd a goladwyd gan dimau eraill yn yr Awdurdod Lleol i ategu eu gwaith ar ddyraniadau tai cymdeithasol, ond yn llai mynych/cyson. Gellir archwilio hyn ymhellach i ddeall hyd a lled y mater yma ledled Cymru.

3.15 Ymddengys fod y ffynonellau gwybodaeth a ddefnyddir, yn ogystal â mecanweithiau prosesu data, yn amrywio'n sylweddol ar draws yr Awdurdodau Lleol a samplwyd. Crybwyllodd cyfweleion fod data'n cael ei storio mewn amryw gronfeydd data mewnol (neu allanol), ac nad yw echdynnu gwybodaeth yn broses syml bob amser heb gymorth allanol. Nid yw'r diffyg mecanweithiau prosesu cyffredin o fewn Awdurdodau Lleol (a hefyd rhwng Awdurdodau Lleol a LCC) yn darparu ar gyfer tryloywder ac eglurder wrth geisio deall yr angen am dai cymdeithasol pan wneir penderfyniadau ynglŷn â'u dyrannu.

3.16 Ymddengys fod Awdurdodau Lleol a samplwyd yn barod i rannu data, gyda phartneriaid ac yn allanol ar gais. Fodd bynnag, am bod data'n cael ei storio mewn lleoliadau niferus, o fewn yr Awdurdod Lleol ac yn ôl pob tebyg o fewn LCC, mae rhannu data'n frwydr i Awdurdodau Lleol a samplwyd. Mae diffyg systemau prosesu wedi'u symleiddio, yn ogystal â diffyg timau o arbenigwyr, yn golygu na oes gan

Awdurdodau Lleol y capasiti i ymdrin â cheisiadau am ddata mewn modd amserol. Yn bwysig, mae Awdurdodau Lleol a samplwyd yn deall yr angen i rannu data'n effeithiol ar draws ac o fewn sefydliadau, ond fe wnaethant amlinellu eu bod yn cael eu hatal rhag gwneud hynny, oherwydd gallu cyfyngedig i adnabod ac echdynnu'r data sy'n ofynnol. Dylid archwilio hyn ymhellach i ddeall hyd a lled y mater yma ledled Cymru.

3.17 Fe wnaeth cynrychiolwyr Awdurdodau Lleol a samplwyd amlygu'r angen i adrodd ar ddata presennol a'i ddadansoddi'n gyson ac yn rheolaidd, gan nodi bod hon yn agwedd allweddol ar gyfer gwella. I rai Awdurdodau Lleol a samplwyd, ymddengys fod Timau Strategaethau Tai a Thimau Digartrefedd ar wahân i'w gilydd, lle mae timau Digartrefedd yn tueddu i adrodd ar ddata allweddol a chynnal dadansoddiadau mwy manwl o'r angen am dai nag a wneir gan Dimau Strategaethau Tai. Ymddengys hefyd fod diffygion o ran gwybodaeth mewn perthynas â'r data ar unigolion sy'n ceisio cael eu cartrefu rhwng timau o fewn yr Awdurdodau Lleol a samplwyd, a helaethir gan y diffyg sianeli a phrosesau cyfathrebu mewnol. Er enghraifft, ychydig iawn o ddealltwriaeth oedd gan un cyfwelai am y data a ddelir gan yr Awdurdod lleol, ers i aelod o staff adael ei swydd yn ddiweddar.

3.18 Mae'r astudiaeth ddichonoldeb hon yn awgrymu, er y gall fod gan rai Awdurdodau Lleol â stoc dai fynediad at ddata cyfoethocach ar dai cymdeithasol, nad ydynt o anghenraid yn cynnal dadansoddiad mwy manwl nag Awdurdodau Lleol heb stoc dai. Er bod Awdurdodau Lleol, mewn egwyddor, yn gallu cael mynediad at y data sy'n angenrheidiol i ddeall a monitro'r galw am dai cymdeithasol ac ymdrechion i'w ateb, nid oes ganddynt y capasiti i ddod â gwahanol setiau data ynghyd a dadansoddi'r data hwn er mwyn iddo allu bwydo i mewn i benderfyniadau am y cyflenwad o dai cymdeithasol a pholisïau a strategaethau tai cymdeithasol mewn modd cyson.

3.19 Defnyddir cofrestrau tai cyffredin yn y rhan fwyaf o ardaloedd yng Nghymru, ac maent yn darparu offer pwysig i ddeall angen a monitro penderfyniadau dyrannu, yn ogystal â sicrhau mynediad at wybodaeth allweddol yn yr ardaloedd hyn. Mae cofrestrau tai cyffredin hefyd yn helpu i wella ansawdd y data sydd ar gael ac yn ei

gwneud yn bosibl rhannu data ar draws cyfranwyr allweddol (gan gynnwys Awdurdodau Lleol a landlordiaid cymdeithasol).

3.20 Mae diffiniadau eglur o ddigartrefedd (a dyletswyddau digartrefedd), yn ogystal â chydnabod nodweddion gwarchodedig, yn galluogi rhai Awdurdodau Lleol i gasglu set gyfoethog o ddata ar angen ymgeiswyr am dai a nodweddion demograffig pwysig. Gall y data hwn fwydo i mewn i ddadansoddiad cadarn o benderfyniadau dyrannu tai cymdeithasol a pherfformiad o ran diwallu'r angen ymhlith pobl o gefndiroedd agored i niwed a difreintiedig. Er bod strwythurau data cyfredol ymhlith Awdurdodau Lleol a samplwyd i'w gweld fel pe baent yn rhwystro cysylltiadau rhwng nodweddion gwarchodedig a'r angen am dai, dengys yr astudiaeth hon fod Awdurdodau Lleol sy'n gallu cysylltu'r mathau hyn o wybodaeth, i oleuo'u prosesau penderfynu o bosibl.

Llwybrau i gael mynediad at dai

3.21 Awgrymodd yr Awdurdodau Lleol a samplwyd dair ffordd y gall ymgeiswyr am dai cymdeithasol gysylltu â'r Awdurdod Lleol fel pwynt cyswllt cychwynnol, sef trwy: (i) cais ar-lein, (ii) galwad ffôn, neu (iii) atgyfeiriadau. Caiff data a gesglir ar y cam hwn gan Awdurdodau Lleol ei ddefnyddio wedyn i asesu lefel yr angen.

3.22 Gan ddefnyddio'u polisi dyraniadau hwy eu hunain a Chod Canllawiau Llywodraeth Cymru, mae Awdurdodau Lleol a samplwyd yn asesu lefel yr angen sydd gan ymgeiswyr. Mae'r asesiad hwn yn penderfynu wedyn ble y bydd ymgeiswyr yn cael eu gosod ar y gofrestr tai. Fel a drafodwyd, mae ymgeiswyr sy'n ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref a'r rhai sy'n perthyn i'r categorïau 'angen blaenoriaethol' a nodir yn y Cod Canllawiau ac mewn deddfwriaeth yn cael eu hystyried yn brif flaenoriaeth gan Awdurdodau Lleol a samplwyd. Mynegodd Awdurdodau Lleol a samplwyd bryder efallai nad yw rhai Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (LCC) yn blaenoriaethu unigolion a chanddynt angen uchel yn ôl safonau Awdurdodau Lleol (megis y rhai sy'n ddigartref ac sydd ag anghenion cymhleth) gan eu bod yn ystyried nad yw'r ymgeiswyr hyn 'yn barod ar gyfer tenantiaeth'. Mae'r Awdurdodau Lleol hynny heb eu stoc dai eu hunain yn aml yn ateb y galw am dai ymhlith pobl ddigartref sydd â lefelau uchel o angen (yn seiliedig

ar y meini prawf uchod) trwy arosiadau estynedig mewn llety dros dro, weithiau hyd at ddwy flynedd a'r tu hwnt i hynny.

3.23 Mae Awdurdodau Lleol a samplwyd i'w gweld fel pe baent yn defnyddio diffiniadau a ffynonellau cyson (megis y Cod Canllawiau ar Ddyrannu Llety a Digartrefedd) ar gyfer asesu angen a blaenoriaethu ceisiadau. Disgrifiodd cyfranogwyr beth anghysondeb rhwng Awdurdodau Lleol a LCC o ran yr hyn y mae bod 'yn barod ar gyfer tenantiaeth' yn ei olygu – mae hyn yn golygu y gall tai LCC gael eu gwrthod i rai ymgeiswyr, hyd yn oed pe bai'r Awdurdod Lleol yn eu hasesu fel pobl ag angen uchel a/neu frys.

3.24 Mae'r Awdurdodau Lleol a samplwyd i'w gweld fel pe baent yn defnyddio systemau bandio tebyg i gategoreiddio blaenoriaethau o fewn y gofrestr tai. Mae ymgeiswyr mewn bandiau uwch yn tueddu i fod ag angen uwch a mwy taer.

3.25 Mae'r bandiau uchaf yn nodweddiadol yn cynnwys y rhai y mae arnynt daer angen symud i mewn i dai cymdeithasol (er enghraifft, pobl sy'n ddigartref neu sydd ag amoda byw gwael/anfoddhaol). Gall angen taer gynnwys pryderon ynghylch diogelwch neu iechyd hefyd. Er enghraifft, yn ôl cynrychiolydd un Awdurdod Lleol, "*Os yw rhywun yn byw mewn fflat ar y trydydd llawr heb lifft a hwythau'n sydyn wedi dod yn llwyr-barlysedig, rhaid iddynt symud. Maent yn cael eu rhoi yn y band uchaf".* Ymddengys fod yr Awdurdodau Lleol a samplwyd yn rhannu diffiniadau a blaenoriaethau tebyg ar gyfer y bandiau uchaf yn y gofrestr tai.

3.26 Roedd bandiau canol yn tueddu i gynnwys trwch yr ymgeiswyr sydd â rhyw o angen am dai yn gyson â pholisi dyrannu'r Awdurdod Lleol, sy'n llai taer ar y pryd na bandiau uwch.

3.27 Roedd y bandiau gwaelod yn tueddu i gynnwys ymgeiswyr heb unrhyw angen am dai, ond y mae arnynt eisiau bod ar y gofrestr i gael mynediad at dai mwy fforddiadwy o bosibl. Bydd y band isaf yn aml yn cynnwys y rhai y mae arnynt eisiau bod ar y rhestr ond nad ystyrir bod ganddynt angen am dai neu eu bod yn barod ar gyfer tenantiaeth o anghenraid, efallai am bod ganddynt ddyledion neu ôl-ddyledion rhent sylweddol.

3.28 Roedd rhai meini prawf o fewn bandiau'n amrywio ar draws Awdurdodau Lleol a samplwyd – er enghraifft, gallai rhai flaenoriaethu ymgeiswyr o broffesiwn penodol (megis gweithwyr allweddol) i fynd i'r afael ag angen lleol. Mae Awdurdodau Lleol eraill a samplwyd yn gwahanu meini prawf yn fandiau gwahanol hefyd – er enghraifft, mae bod â chysylltiad lleol yn cael ei drosi'n safle mewn band uwch. Dylid archwilio hyn ymhellach i ddeall yr amrywiad yn nifer a diffiniadau'r bandiau ledled Cymru.

3.29 Ymddengys fod Awdurdodau Lleol a samplwyd yn rhannu'r un amcan trosfwaol – maent yn amcanu at gartrefu pobl y mae angen hynny arnynt. Amlygodd yr astudiaeth ddichonoldeb y gall fod anghytundeb rhwng Awdurdodau Lleol a samplwyd a'r LCC y maent yn gweithio gyda hwy o ran penderfyniadau ynglŷn â dyrannu tai cymdeithasol. Dywedodd yr holl Awdurdodau Lleol y cyfwelwyd â hwy eu bod wedi profi rhyw lefel o anghysondeb rhwng eu blaenoriaethau hwy a diffiniad LCC o fod 'yn barod ar gyfer tenantiaeth', gan nodi bod LCC yn tueddu i fod yn fwy amharod i dderbyn risg. Roedd Awdurdodau Lleol a samplwyd yn teimlo y gallai LCC fod yn fwy detholgar o ran caniatáu i unigolion â lefelau uchel o anghenion neu hanesion tai gwael gael eu cartrefu yn eu cyfleusterau. Mae'r anghysondeb hwn yn arbennig o amlwg ar gyfer Awdurdodau Lleol a samplwyd nad oes ganddynt eu stoc dai eu hunain, ac sydd felly â llai o reolaeth dros ddyrannu tai cymdeithasol. Er enghraifft, soniodd cynrychiolydd un Awdurdod Lleol a samplwyd eu bod [LCC] "*i fod i ddyrannu 70% o ymgeiswyr digartref i LCC, ond mae ffigyrau cyfredol yn nes at 37%*" I Awdurdodau Lleol a samplwyd sydd â stoc dai, mae unigolion a wrthodwyd gan LCC yn cael eu dyrannu wedyn i dai'r Awdurdod Lleol ei hun yn lle hynny sy'n arwain at ardaloedd tai â chrynhoad o unigolion ag anghenion cymhleth, a allai weithredu fel rhwystr i gynhwysiant cymdeithasol yn y gymuned ehangach.

3.30 Yn y rhan fwyaf o ardaloedd ledled Cymru, defnyddir cofrestrau tai cyffredin o fewn Awdurdodau Lleol[14]. Mae hyn yn golygu bod yr Awdurdod Lleol yn rheoli un gofrestr tai cymdeithasol ar gyfer yr holl LCC a'u stoc dai hwy eu hunain, os oes ganddynt stoc dai. Pan fo uned o dai cymdeithasol ar gael (naill ai trwy LCC neu stoc dai'r Awdurdod Lleol ei hun), fe'i dyrennir i ymgeiswyr yn y bandiau uwch naill ai'n

[14] Arolwg Awdurdod Lleol o Gofrestrau Tai Hygyrch | LLYW. CYMRU (llyw.cymru)

gronolegol neu drwy gynllun gosodiadau seiliedig ar Ddewis, sy’n galluogi ymgeiswyr cofrestredig i gynnig am gartrefi sydd ar gael. Os nad oes unrhyw un o fand uwch yn derbyn y cynnig, mae Awdurdodau Lleol a samplwyd yn symud i lawr at y band nesaf o ymgeiswyr.

3.31 Mae rheoli’r gofrestr tai gyffredin yn rhoi rheolaeth i Awdurdodau Lleol dros benderfyniadau dyrannu a gwybodaeth am nodweddion ymgeiswyr. Mae tystiolaeth o’r astudiaeth ddichonoldeb hon yn awgrymu bod tri Awdurdod Lleol yng Nghymru nad ydynt yn rhannu cofrestr tai gyffredin ar hyn o bryd. Mae hyn yn golygu bod ceisiadau am dai cymdeithasol yn cael eu rheoli trwy gofrestrau tai ar wahân ar gyfer yr Awdurdod Lleol a LCC. Mae Awdurdodau Lleol a samplwyd o’r farn bod hyn yn arwain at ddiffyg tryloywder a chyfathrebu syml – a all achosi problemau yn enwedig i Awdurdodau Lleol nad ydynt yn berchen ar stoc tai cymdeithasol. Ymddengys fod gan Awdurdodau Lleol a samplwyd lawer mwy o reolaeth dros ddyrannu tai cymdeithasol yn eu hardal os ydynt yn rhannu cofrestr tai gyda darparwyr tai eraill.

Canfyddiadau: Data o’r Awdurdodau Lleol

3.32 Mae’r adran hon yn crynhoi canfyddiadau’r astudiaeth ddichonoldeb gyda 4 Awdurdod Lleol yng Nghymru.

3.33 Mae’r Awdurdodau Lleol a samplwyd yn ei chael hi’n anodd ateb y galw am dai cymdeithasol, gyda phob un ohonynt yn nodi cynnydd sylweddol ar ôl COVID-19. Mae hyn yn rhoi mwy o bwysau ar staff. Dywedodd un Awdurdod Lleol fod ganddynt “*9,000 o bobl ar y gofrestr, gydag oddeutu 100 yn cael eu hychwanegu bob mis*”. Mae llawer o unigolion ac aelwydydd sydd ar y gofrestr tai yn y bandiau uchaf ac â’r angen mwyaf taer wedi’u trapio mewn llety dros dro, a hynny weithiau am gyhyd â dwy flynedd.

3.34 Soniodd Awdurdodau Lleol a gyfranogodd eu bod yn profi rhai anawsterau gyda LCC mewn perthynas â dyraniadau tai cymdeithasol. Roedd LCC yn cael eu hystyried yn fwy amharod i dderbyn risg, a hwythau’n osgoi cartrefu ymgeiswyr ag anghenion cymhleth neu ôl-ddyledion rhent sylweddol.

3.35 Mae Awdurdodau Lleol sy'n berchen ar stoc tai cymdeithasol yn gallu darparu opsiwn allanol i ymgeiswyr y gwrthodir tai LCC iddynt. I Awdurdodau Lleol heb stoc dai, nid oes ganddynt opsiwn allanol i ymgeiswyr y gwrthodir tai LCC iddynt sy'n golygu bod unigolion yn aros mewn llety dros dro am gyfnodau maith.

3.36 Gall yr anghysondeb rhwng Awdurdodau Lleol a LCC o ran blaenoriaethu a lefel risg arwain at flociau o stoc dai â dim ond unigolion sydd ag anghenion cymhleth ac sy'n risg uchel, gan greu arwahaniad o fewn cymunedau a mwy o bwysau ar staff tai Awdurdodau Lleol a samplwyd. I Awdurdodau Lleol a samplwyd sydd heb stoc dai, mae'r anghysondeb hwn yn golygu bod tai cymdeithasol yn cael eu rhoi i bobl sydd wedi'u prisio allan o'r sector rhentu preifat ond sydd heb anghenion cymhleth, tra nad yw pobl ag anghenion cymhleth yn cael mynediad ac nad oes rhyw lawer o ddewis ganddynt ond aros mewn llety dros dro.

3.37 Caiff cofrestrau tai cyffredin eu hystyried yn offeryn pwysig sy'n rhoi rheolaeth i Awdurdodau Lleol dros asesiadau o anghenion a phenderfyniadau dyrannu. Mae hyn yn arbennig o bwysig i'r Awdurdodau Lleol a samplwyd sydd heb stoc dai, a ddywedodd eu bod yn wynebu rhwystrau sylweddol i gartrefu pobl ag anghenion cymhleth heb fynediad at gofrestr tai gyffredin.

## 4. Casgliadau

4.1 Mae'r amrywiaeth a ddangoswyd rhwng y nifer fach o Awdurdodau Lleol a samplwyd yn yr astudiaeth ddichonoldeb hon yn ategu'r angen am ymchwil bellach i ddeall dyraniadau tai cymdeithasol ar draws yr holl landlordiaid cymdeithasol yng Nghymru. Mae'r adran hon yn trafod casgliadau yn seiliedig ar ganfyddiadau'r ymchwil mewn perthynas â dichonoldeb cynnal prosiect ymchwil ehangach, dros Gymru benbaladr.

4.2 Dylai ymchwil yn y dyfodol ganolbwyntio ar weithio gydag Awdurdodau Lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig i adnabod setiau o ddangosyddion sy'n ganolog i wneud penderfyniadau a pholisïau mewn perthynas â dyrannu tai cymdeithasol. Er enghraifft, y mathau o angen sydd gan ymgeiswyr a nodweddion demograffig ymgeiswyr mewn llety dros dro ac ar gofrestrau tai. Dylid adnabod ffynonellau data a pherchnogion ar gyfer pob dangosydd sydd o ddiddordeb hefyd.

4.3 Gellid cynnal ymarfer casglu data cynhwysfawr i goladu data ar y dangosyddion allweddol hyn o wahanol ffynonellau (a ddelir gan dimau digartrefedd Awdurdodau Lleol a landlordiaid cymdeithasol). Byddai hyn yn galluogi Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid ehangach i gael dealltwriaeth fanwl am fylchau a heriau mewn casgliadau data presennol mewn perthynas â dyraniadau tai cymdeithasol.

4.4 Dylid nodi bod hyn yn debygol o fynnu llawer o adnoddau, ond ystyrir ei fod yn gam allweddol i deall prosesau penderfynu ledled y wlad, gan adnabod rhwystrau posibl i gyflawni yn ogystal ag arfer gorau a chyflwyno diwygiadau wedi'u targedu i roi cymorth i drawsnewid gwasanaethau tai ar gyfer aelwydydd digartref.

4.5 Wedyn gellid dadansoddi data'n ganolog i ddeall yr angen am dai; rhoi cymorth i drawsnewid gwasanaethau ar gyfer aelwydydd digartref; ac adnabod effeithiolrwydd partneriaethau; i fynd i'r afael â'r materion yn ardal pob Awdurdod Lleol. Gallai'r gwaith hwn ganolbwyntio ar arfer gorau a meysydd i'w gwella.

4.6 Er enghraifft, sicrhau bod gweithgarwch dyraniadau'n adlewyrchu anghenion tai aelwydydd digartref ac yn sicrhau bod Awdurdodau Lleol a landlordiaid cymdeithasol yn gallu cyflawni eu dyletswyddau dan ddeddfwriaeth tai a chydraddoldebau.

4.7 Byddai cronfa ddata gyffredin sy'n cynnwys data ar ddangosyddion allweddol o bob Awdurdod Lleol yng Nghymru, yn ogystal â thempled ar gyfer adrodd ar y dangosyddion hyn yn allbynnau defnyddiol o'r ymchwil hon. Gallai'r rhain gael eu defnyddio hefyd gan Lywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol a rhanddeiliaid eraill yn y dyfodol i wneud penderfyniadau seiliedig-ar-dystiolaeth ynglŷn â pholisi ac ymyriadau.

# 5. Argymhellion

5.1 Canfu'r astudiaeth ddichonoldeb hon newidiadau posibl i Awdurdodau Lleol a LCC a allai wella'r data mewn perthynas â dyraniadau tai cymdeithasol yng Nghymru. Roedd yr astudiaeth yn fach ond mae'n rhoi arwydd cryf bod angen ymchwil bellach i ddeall amrywiad a hyd a lled yr amrywiad hwnnw ledled Cymru ac i asesu pa un a yw gweithgarwch dyrannu tai'n diwallu anghenion aelwydydd digartref.

5.2 Dylid cynnal ymchwil bellach i ganfod i ba raddau y mae angen i Awdurdodau Lleol fuddsoddi mewn datblygu systemau i gasglu a storio data sy'n cael ei ddal gan dimau, adrannau a/neu sefydliadau gwahanol ar hyn o bryd (er enghraifft ar yr angen am dai, nodweddion demograffig a nodweddion gwarchodedig ymgeiswyr a thenantiaid, gosodiadau, trefniadau brys a'r stoc tai cymdeithasol a nodweddion unedau). Byddai'r ymarfer hwn o gymorth i oleuo'r dadansoddiad o'r angen am dai sy'n deillio o ddigartrefedd, i sicrhau wedyn bod y stoc tai cymdeithasol yn cael ei datblygu a'i dyrannu mewn ffordd sy'n ymateb i fater digartrefedd (a, lle y bo'n bosibl, yn ei atal) gan hefyd gynorthwyo aelwydydd i gael mynediad at dai parhaol neu sefydlog.

Byddai casglu a dadansoddi data, trwy brosiect ymchwil mwy, o gymorth i ddeall y dull cyfredol o ddyrannu tai ledled Cymru ac yn darparu mewnwelediad i ddynodi pa un a oes camgymhariad posibl rhwng yr amcan i roi terfyn ar ddigartrefedd a dyrannu tai cymdeithasol, ac os felly i ba raddau. Bydd hefyd o gymorth i ddatblygu'r sylfaen dystiolaeth a all fwydo i mewn i benderfyniadau polisi a'u goleuo, ac felly wella perfformiad o ran mynd i'r afael â'r angen am dai cymdeithasol.

5.3 Gallai ymchwil bellach fod o gymorth hefyd i adnabod pa fecanweithiau rhannu data y mae eu hangen rhwng Awdurdodau Lleol a LCC i leihau'r rhwystrau a'r heriau a wynebir mewn perthynas â rhannu gwybodaeth, a gwella tryloywder ac eglurder ar gydymdrechion yr ymgymerir â hwy. Bydd hyn o gymorth yn arbennig i'r Awdurdodau Lleol hynny nad ydynt yn berchen ar stoc tai cymdeithasol, fel bod ganddynt ddealltwriaeth well am anghenion a blaenoriaethau, yn ogystal â deilliannau gwell i bobl sydd mewn angen. Gallai hyn helpu hefyd i gyflymu'r broses o symud ymlaen a lleihau'r amser a dreulir mewn llety dros dro anaddas.

5.4 Mae'r astudiaeth ddichonoldeb hon hefyd yn awgrymu y gall fod cyfle i ddatblygu cronfa ddata genedlaethol ar gyfer tai cymdeithasol a fydd, ynghyd â data digartrefedd mewn amser real, yn galluogi Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol i fonitro cynnydd tuag at ateb y galw am dai, adnabod a meincnodi yn erbyn arfer gorau, ac archwilio heriau a ffyrdd o fynd i'r afael â hwy. Mae'r system cofnodi gosodiadau a gwerthiannau tai cymdeithasol yn barhaus yn Lloegr (CORE)[15] yn enghraifft o arfer gorau o ran creu ffynhonnell wybodaeth genedlaethol ar gyfer gosodiadau a thenantiaid tai cymdeithasol sy'n cwmpasu Awdurdodau Lleol a LCC. Byddai ymchwil bellach yn helpu i ddatblygu sylfaen dystiolaeth y gellid ei defnyddio i archwilio cronfa ddata tai cymdeithasol genedlaethol i Gymru.

[15] System cofnodi gosodiadau a gwerthiannau tai cymdeithasol yn barhaus (CORE): canllawiau - GOV.UK (www.gov.uk)

## Atodiad A: Canllaw Cyfweld

### Mathau o ddiffiniadau a'r data sydd ar gael

- Pa ddiffiniadau sy'n cael eu defnyddio gan Awdurdodau Lleol a LCC Cymru mewn perthynas â dyraniadau tai cymdeithasol (er enghraifft, yr angen am dai, cymhwystra a blaenoriaethau, llwybrau at dai cymdeithasol)?

  A yw'r rhain yn amrywio rhwng sefydliadau?
- Pa wahanol ddangosyddion sy'n cael eu defnyddio gan Awdurdodau Lleol a LCC Cymru ar bynciau sy'n ymwneud â dyraniadau tai cymdeithasol (e.e. gosodiadau cymdeithasol, unedau gwag, nifer yr aelwydydd mewn tai cymdeithasol a.y.b.)?
- Pa ddata sydd ar gael ar ddemograffeg – gyda sylw penodol i nodweddion gwarchodedig gan gynnwys ethnigrwydd, oedran, anabledd, math o aelwyd deuluol

  Sut y mae'r data yma'n amrywio ar draws Awdurdodau Lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig?
- A all aelwydydd digartref neu'r rhai a allai fod mewn perygl o fod yn ddigartref, yn ôl y diffiniad yn Neddf Tai (Cymru) 2014, gael eu hadnabod yn y data?

  A oes unrhyw fylchau yn y data yma?

### Casglu, cysondeb ac ansawdd data

- Sut y mae data ar ddyraniadau tai cymdeithasol yn cael ei gasglu, ei ddal a'i lanhau ar draws Awdurdodau Lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (LCC) Cymru?
- I ba raddau y mae deiliaid data'n barod i rannu neu'n gallu rhannu data ar ddyraniadau tai cymdeithasol i gael ei ddadansoddi ymhellach?
- A oes unrhyw gywerthedd o ran casglu data, cwmpas y data ac argaeledd data ar draws Awdurdodau Lleol a LCC Cymru, ac i ba raddau y gall y data gael ei ddadansoddi yn ei gyfanrwydd neu ei gymharu ar sail gyfatebol?
- Pa heriau a rhwystrau y mae'n debygol y doir ar eu traws o ran ansawdd, cwmpas ac argaeledd data ar ddyraniadau tai cymdeithasol ledled Cymru?
- Pa fethodolegau o ran casglu data a dadansoddi data ddylid eu hystyried i ganiatáu dadansoddiad manwl o gyfraddau dyrannu tai?